




tud 3	tud 8	tud 11	tud 12
Pobl a Phethe	Calennig	Croesair	Y Gair Olaf

Blwyddyn Newydd Dda



Dawnsio gwerin yn y Neuadd Goffa i ddathlu'r Calan

Cafwyd Nos Galan tra gwahanol yn Nhal-y-bont eleni! Braf oedd gweld y Neuadd Goffa dan ei sang ar 31 Rhagfyr 2011 pan ddaeth pentrefwyr a ffrindiau ynghyd er mwyn croesawi'r flwyddyn newydd. Cychwynwyd y dathliadau yn y Neuadd trwy gyd-ddysgu cân a ysgrifenyddwyd yn arbennig ar gyfer y digwyddiad gan y Prifardd Hywel Griffiths. Lluniwyd y geiriau i fynd a'r y gainc *Oer yw'r Gŵr* ac ym mhen dim amser roedd pawb yn hen law ar ganu'r gân.

Cyn hir roedd hi'n amser dilyn y Fari o amgylch y pentref, gan alw mewn amryw o dai ar hyd y ffordd cyn gorffen unwaith eto yn y Neuadd. Mae'n siwr ein bod ni'n olygfa rhyfedd iawn i'r teithwyr a oedd yn teithio drwy'r pentref y noson honno – tyrfa o bobl



Creu'r hetiau yn y gweithdy

Llun gan Rebecca Williams

mewn hetiau amrywiol yn dilyn arweinydd yn gwisgo lliain wen a phen ceffyl wedi ei greu o *papier mache*! Mawr yw ein diolch i'r tîm dan gyfarwyddid Ruth Jen a Helen Jones a fu wrthi'n creu'r Fari'n arbennig ar ein cyfer – roedd hi'n werth ei gweld! Bu Ruth, Helen a'r tîm hefyd yn brysur ar y dydd Mercher cyn Nos Galan yn cynnal gweithdy yn y Neuadd, lle roedd croeso i unrhyw un daro draw i greu het arbennig i'w gwisgo ar y noson. Bu'r gweithdy'n brysur, ac mi gawson gyfle i weld ffrwyth eu llafur ar y noson - amrywiaeth o hetiau o bob siap a maint wedi eu llunio o *papier mache* a fframiau pren.

Wedi cyrraedd nôl i'r Neuadd cafwyd parti arbennig. Fe ymunwyd â ni gan y grŵp gwerin *A Llawer Mwy* a fu'n ein diddanu gyda cherddoriaeth gwerin a dawnsio twmpath. O dan gyfarwyddid gwyh y grŵp mi ddawnsiodd mwyafrif y gynulleidfa o leiaf un cân! Mwynhawyd y twmpath yn fawr iawn gan yr hen a'r ifanc fel ei gilydd, ac roedd yn gyfle gwyh i ddod i nabod bobl eraill ar y noson. Mi aeth y dawnsio a'r bwyta a ni at hanner nos, pan y tywysodd Harry James ni i'r flwyddyn newydd, cyn i don o falŵns syrthio ar ein pennau. Cafwyd tipyn o hwyl yn ffrwydro'r balŵns – ac nid gan y plant yn unig! Cŷd-ganwyd *Blwyddyn Newydd Dda i Chi*, cyn i Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, Yr Athro April McMahn a'r teulu ein harwain i ganu *Auld Lang Syne* i gloi'r noson. Noson yw chofio felly yng nghwmni'n gilydd.



Rhaid o'r hetiau wedi eu gorffen yn barod ar gyfer gorymdaith Nos Galan
Llun gan Rebecca Williams

Nos Galan 2011

Os bydd Ceulan wedi rhewi,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Eira'n drwch ar lannau Leri,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Awn yn gynnes heno i ganu,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Mae hi'n flwyddyn newydd fory,
Fal, la, la, la, la, la, la, la.

I'r holl bentref canwn heno,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
O Bumlumon i Gors Fochno,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Dewch gyfeillion o bob oedran,
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Awn i rannu hud nos Galan.
Fal, la, la, la, la, la, la, la,
Y Prifardd Hywel Griffiths

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
(01970) 832560
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis.

GOHEBYDDION LLEOL
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henlllys: Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Eglwysfach/Ffwrnais: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin 832230
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Tre'r Ddôl: Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260
Maes y Deri: Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Is-gaderydd: Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Ysgrifennydd: Siân Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Tsorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Plygu: Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds
Dosbarthwyr: Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,

Cyhoeddwr gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd y Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Ga' i dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun cyffrous, newydd gan gwmni *Golwg*.

Mae'n rhoi cyfle arbennig i bobl sydd â ffirndiau neu berthnasau'n byw y tu allan i Gymru ... ac i bawb sy'n defnyddio *i-ffôn* ac *i-pad*.

Mae'n siŵr bod nifer fawr o'ch darllenwyr yn gyfarwydd â chylchgrawn wythnosol *Golwg*, sydd wedi bod ar silffoedd ein siopau lleol ers dros 23ain o flynyddoedd. Erbyn hyn, mae'n bosib i bawb sydd ag *i-ddyfais* (*i-ffôn* neu *i-pad* neu *i-pod*, er enghraifft) brynu cylchgrawn *Golwg* a'i ddarllen yn electronig ar eich dyfais symudol bob wythnos.

Dyma'r App cynta' erioed i gael ei lansio gan gylchgrawn Cymraeg – *apGolwg*! Mae'n ffordd newydd sbon o brynu'r cylchgrawn a chael ambell i beth ychwanegol.

Bydd y cylchgrawn i gyd yno mewn ffordd hawdd ei ddarllen a hawdd symud o le i le ond bydd hefyd gyfle i chi fwynhau clipiau fideo a lincs ychwanegol.

Mantais arall yw y bydd y fersiwn App ar gael y funud y mae'r cylchgrawn yn cael ei gyhoeddi, ble bynnag y byddwch chi yn y byd. Bydd y rhifynnau yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd a'r fersiwn print ac yn costio yr un faint – namyn ceiniog!

Mae'n gyfle gwyh i bobl sy'n byw dramor ddarllen *Golwg* yn rheolaidd. Mae'n bosib i chi danysgrifio i *apGolwg* am flynyddyn, chwe mis neu dri mis – neu wrth gwrs mae'n bosib prynu fesul rhifyn.

Felly, ewch amdani – apiwch, i fod yn rhan o'r datblygiad hanesyddol hwn. Ewch i wefan *i-tunes* a chwilota am *ap-Golwg*, neu am fwy o wybodaeth ebostiwrch marchnata@golwg.com

Yn gywir,
Sian Sutton
Golygydd Cylchgrawn *Golwg*

Annwyl Gyfeillion,

Fel y gwyddoch, bu gweddnewid ar ac hefyd yn adeilad Senedd dy Owain Glyndŵr, Machynlleth, yn ystod 2010/11. 'Roedd hyn yn sgîl buddsoddiad sylweddol gan Cadw/Llywodraeth Cymru. Agorwyd y Senedd dy ar ei newydd wedd gan y Gweinidog Dros Faterion Gwledig, Alun Davies A.C. ar Fehefin 18, llynedd.

Y bwriad eleni yw ceisio cadw'r Ganolfan ar agor am y rhan fwyaf o'r flynyddyn ar ôl ail agor yn barhaol ar ddechrau mis Mawrth. Yn ogystal â chynnal yr arddangosfa newydd, mae cais wedi ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri er mwyn sicrhau datblygiad pellach gan greu Canolfan Genedlaethol Owain Glyndŵr ar y safle. I'r perwyl hwn cafwyd cyfarfodydd

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Geraint Evans, Geraint a Siân Pugh gydag Iolo ap Gwynn yn dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Helen a Ceri Jones (stiwio@ceri-talybont.com, 832543). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion **erbyn dydd Gwener, 3 Chwefror**. Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 10 Chwefror.

Dyddiadur

Ionawr

15 Bethel 2 *Gweinidog*
Nasareth
Rehoboth 2 *Parch Elwyn Pryse*
Eglwys Dewi Sant 11 *Boreuol Weddi*

16 Merched y Wawr 7 y h
Dr Hedd Piper
(*Clinig Corff Ystwyth*)
19 Sefydliad y Merched
"Micheal a'i Gamera"

(*Micheal Deaville*)
22 Bethel 10 *Delyth Morgan*
Nasareth 5 *Bugail*
Rehoboth 10 *Parch Richard Lewis*

Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol

27 Llew Gwyn 20:00
Clwb Nos Wener Talybont yn cyflwyno sioe farddol newydd Twm Morys, Mei Mac, Ifor ap Glyn, Myrddin ap Dafydd a Geraint Lovgreen.

'With ddathlu hanner can mlynedd o frwydr iaith yma yng Nghymru ers i Saunders Lewis ddarlledu ei ddarlith 'Tynged yr Iaith', bydd y sioe hon yn ail-fyw gormes ac ymgyrchoedd y gorffennol drwy gerddi a chaneuon ac yn trafod yr her sy'n wynebu siaradwyr y Gymraeg heddiw' (Myrddin ap Dafydd).

gyda Phrif Swyddogion Cyngor Sir Powys ym mis Ionawr. Un o hanfodion gwireddu'r cynllun yw sicrhau bod gan y Ganolfan Arian Cyfatebol fel cyfraniad at y cyfansw'n angenrheidiol. Heblaw am hynny, mae costau Cynnal a Chadw cyson i'w hwynebu. Er mwyn sicrhau datblygiad pellach y Ganolfan byddai croeso arbennig i gymorth gwirfoddol gan y cymunedau cyfagos, yn bennaf i:-

weithio yn y siop/arddangosfa sydd yn lle cysurus a diddorol; drefnu gweithgareddau Codi Arian rheolaidd;

gynorthwyo gyda ceisiadau am grantiau priodol a/neu waith gweinyddol angenrheidiol yn y swyddfa.

Os oes gennych awydd cynorthwyo at ddatblygiad un o ganolfannau treftadaeth pwysicaf Cymru, mae croeso i chi gysylltu gyda'r canlynol
Henry Evans [Cadeirydd y Ganolfan] 01654 702214

Glyn Jones [Trefnydd y Siop/ Arddangosfa] 01654 700122, canolfanowain@btconnect.com

Wyn Thomas [Ysgrifennydd y Pwyllgor Datblygu] 01267 241215, annwynthom@aol.com.

Gan ddiolch ymlaen llaw am bob cymorth.

Yn gywir,
W.Thomas.

29 Bethel 10 *Gweinidog*
Nasareth
Rehoboth 5 *Bugail*
Eglwys Dewi Sant 10
Gwasanaeth Undebol

Chwefror

5 Bethel 2 *Gweinidog*
Nasareth 10 *Bugail (C)*
Rehoboth 2 *Bugail*
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaid*

8 Neuadd Goffa Tal-y-bont 20.00
(Gwaelod y neuadd)
Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli'r Neuadd

12 Bethel 10 *Cwrdd Teuluol*
Nasareth
Rehoboth 10 *Bugail (C)*
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaid*

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn dyddiadur y mis, dylech ddanfod y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Gwasanaeth Tyllino Proffesiynol

yng nghysur eich cartref

yn arbenigo mewn tyllino corff ac ar gyfer chwaraeon

Am fanylion pellach cysylltwch â Michelle ar y ffon 01654 781314 or 07984 501479

michellejsymes@btinternet.com

Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael

Mathew Davies Plymio a Gwresogi

07964 124 457 ar gael 24 awr
hefyd gwaith teilio.
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

NEUADD GOFFA

(gwaelod y neuadd)

TAL-Y-BONT

8 o'r gloch

Nos Fercher

8fed o Chwefror

Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli'r Neuadd

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cylch Cyn-oed Taliesin

Mae Cylch Cyn-oed Taliesin yn dathlu ar ôl derbyn grant o £647.82 o Gronfa Gymuned y Co-op. Y bwriad yw defnyddio'r arian i dalu rhent yr adeilad dros y flwyddyn ac felly cynnal gweithgareddau hwyliog i blant o chwe mis i chwe mlwydd oed. Bydd y Cylch hefyd yn ychwanegu at yr offer chwarae awyr argored. Mae'r Cylch yn cyfarfod bob dydd Iau o 10.00 tan 12.00 yn y Ffestri. Croeso i aelodau newydd.

Babi o bell

Llongyfarchiadau i Bob a Jacqui Relph, Bryn Dolen, Eglwysfach ar enedigaeth ŵyr ar 2/1/2012. Ganwyd Jude ym Mumbai, India ble mae ei rieni yn byw ac yn gweithio fel newyddiadurwyr.

Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch sydd wedi dioddef anaf yn ei waith yn ystod y mis a aeth heibio. Traed i fyny am sbel fach!

Croeso

Croeso cynnes iawn i'r Athro & Mrs Wayne Powell sydd ar fin ymgartrefu yn yr Hen Ficerdy, Bont-goch. Mae'r Athro Powell yn gyfarwyddwr Sefyliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Cymru (IBERS).

Ymdeol

Anfonwn ein cofion arbennig at Y Parchg John Livingstone, ficer Elerch, Penrhyn-coch a Chapel Bangor ers degawd, sydd wedi cyhoeddi ei ymdeoliad cynamserol. Bu'n fawr ei ofal dros ei braidd, a dymunwn y gorau iddo am y dyfodol wrth iddo ymdeol i'w gartref yn Sir Benfro ym mis Chwefror.

Profedigaeth

Gyda thristwch, nodir marwolaeth Mrs Curigwen Griffiths ar 25 Rhagfyr 2011 tra yn yr ysbyty. Rydym yn cydymdeimlo â'i brawd, a gyda David a Dilwyn ei meibion.

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Pobl a Phethe



Ar ôl dros chwarter canrif o wasanaeth ffyddlon mae Goronwy Jones, Glasgoed Talybont wedi ymddeol o'i swydd fel Ysgrifennydd Gohebol Eglwys Annibynnol Gogledd Ceredigion. Dros y cyfnod bu Goronwy yn llenwi'r Suliau yng nghapel'r ofalaeth gan gwblhau'r dasg gyda graen ac urddas. Nid gwaith hawdd oedd canfod pregethwyr i holl Suliau'r flwyddyn ond fe wnaed hynny'n ddi-fwlch a mawr oedd canmoliaeth gweinidogion yr ardal i Goronwy am ei ofal a'i sylw at fanylion y dasg. Cafwyd cyfle i dalu diolch i Goronwy mewn cyfarfod o Bwyllgor Canolog yr ofalaeth a chyflwynwyd anrheg iddo sef cyfrol ar hanes Aberllefenni a Chorris – bro ei febyd. Yn y llun mae Goronwy yn derbyn dymuniadau gorau gweinidog yr ofalaeth, y Parch Richard Lewis.

Pasio Arholiad

Llongyfarchiadau i Siôn Nelves, Dolau Gwyn, Tre'r Ddôl ar lwyddo gyda chlod yn ei arholiad Gradd 1 ar y piano.

Cartref newydd

Rydym yn dymuno pob hapusrwydd i Antony, Shelley, Libby a Lewys Foulkes yn eu cartref newydd yn y Foelas, Tre Taliesin.

Gwellhad buan

Gwellhad buan i Hannah Foulkes, 1 Wesley Terrace, Tre Taliesin ar ôl triniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Penblwydd Hapus

Penblwydd hapus a phob dymuniad da i Mrs Ann Watkin, Brynawel, Tre Taliesin, ar ei phenblwydd yn 94 oed, 25 Ionawr

Dymuniadau gorau i Mr Ceredig Lloyd, Y Shop, Bont-goch ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Dai Owen Evans, Maes-y-Deri, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 70 oed ar 22 Rhagfyr 2011.

Symud Tŷ

Croeso i Phil a Bethan Evans, a'u merch Angharad, sydd wedi dod i fyw i 1 Dôl Pistyll. Yn ogystal, mae Oliver Cherry a Toby wedi dod i fyw i 3 Tancoed.

Yn yr Ysbyty

Trist oedd clywed bod Gwilym Roberts wedi syrthio y tu allan i'r siop ar 12 Rhagfyr, ac wedi gorfod mynd i'r ysbyty i gael triniaeth. Erbyn hyn, mae Gwilym wedi dychwelyd adref.

Hefyd yn yr ysbyty mae Julie Evans, Brynheulog, Stryd Adam, a hefyd Bill Gardener, Pandy.

Bu Mrs Ruby Dewhurst hefyd yn yr ysbyty yn ddiweddar ond deallir ei bod erbyn hyn wedi mynd i gartref nyrsio Abermad, Llanilar.

Bu Rhian Jones, 3 Hafodawel, yn yr ysbyty yn Abertawe ond mae bellach wedi dychwelyd adref ar ôl derbyn triniaeth.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Foulkes, Tre Taliesin, ar basio ei brawf gyrru ar 23 Rhagfyr 2011.

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Mared Llwyd ac Elgan Griffiths, Y Gorlan, Tre Taliesin sydd wedi dyweddïo ddydd Nadolig 2011.

Diolch

Dymuna Betty Roberts a'r teulu ddiolch i bawb am eu cymorth a'u cefnogaeth yn dilyn damwain Gwilym yn ddiweddar, ac yn enwedig ar brynawn 12 Rhagfyr. Diolch hefyd am y cardiau, y galwadau ffôn a'r negeseuon o ddymuniadau gorau.

Eirwyn Pontshân a Bont-goch

Roedd rhaglen *Straeon Tafarn* ar hanes Eirwyn Pontsiân yn un ddiwyf. Diddorol oedd ei glywed yn dweud ei fod wedi gwrthod y cynnig i wneud rhaglen gomedi Saesneg gyda chwmni *Granada*, gan ddewis yn lle hynny i gadw ei ymrwymiad i fynd i Sosial Bont-goch!

Genedigaethau

Llongyfarchiadau mawr i Andrea a Russell Riding, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu merch ar 28 Rhagfyr 2011 sydd hefyd yn wyres i Bobby Riding. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Sylvia Cartwright, 1, The Romans, ar enedigaeth wyres newydd, Leah, merch i Jeremy a Catriona, ar Wyl San Steffan.

Mae Marie Wooding a Jack Melad, Maes-y-Llan, wedi cael mab bach ar 13 Rhagfyr. Mae Tomas Jacob yn frawd bach i Terrese a Grace.

Llongyfarchiadau hefyd i Jeremy Cartwright a'i bartner Catriona Spallen, Neuadd-fach, wedi iddynt gael merch fach, Leah, sy'n chwaer i Alex a Sean.

PANTOMEIM RADIO CYMRU



Daeth rai o sêr Radio Cymru i Neuadd Talybont ar nos Sul 11 o Ragfyr i recordio Pantomeim yr Orsaf. *Wei Hei! Blod a Lleu*. Caryl Parry Jones a Hywel Gwynfryn oedd yr awduron gyda'r stori'n seiliedig ar y chwedl adnabyddus o'r Mabinogi. Hywel sgwennodd y sgript gyda Caryl yn gyfrifol am y caneuon. Yn ôl Caryl roedd Talybont wedi ei ddewis fel man canolog rhwng de a'r Gogledd gan fod y cast yn rhannu'n ddigon cyfartal rhwng staff Radio Cymru ym Mangor a Chaerdydd. Peth digon anodd oedd cyflwyno pantomeim radio disymud i gynulleidfa ond chwarae teg i'r cast, fe ymdrechwyd ymdrech deg. Roedd yn help garw bod pawb wedi gwisgo mewn dillad 'pantomeimaidd' a difyr iawn oedd gwyllo'r Gareth Glyn llithrig ei dafod fel rhyw fath o glawn y llys. Jôcs cyson ar draul Radio Cymru a peth braf oedd gweld criw'r lleisiau adnabyddus yno mewn cig a gwaed fel petai. Mwynhawyd y noson gan y rai a ddaeth i fwian, hisian a gweiddi hwre yn ei dro a thrueni nad oedd mwy yno i ymuno yn y sbri.

CYLCH MEITHRIN TAL-Y-BONT



Unwaith eto eleni cynhaliwyd cyngerdd Nadolig a noson goffi'r Cylch Meithrin ar nos Lun olaf y tymor. Bu'r plant yn perfformio drama'r geni ac yn canu carolau i lond neuadd o rieni a ffrindiau. Llwyddwyd i godi £600 tuag at gynnal y Cylch Meithrin.

Mae'r tymor yma wedi bod yn un prysur iawn i'r pwyllgor a'r staff gan iddynt drefnu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol i godi arian i gronfa'r Cylch. Cynhaliwyd parti Calan Gaeaf yn y Neuadd Goffa, cystadleuaeth dartiau a noson bingo yn y Llew Gwyn. Diolch yn fawr i'r busnesau lleol am noddi'r cystadleuthau bingo ac yn enwedig i Nicky, Shaun a staff y Llew Gwyn am eu cefnogaeth cyson i'r Cylch.



Bydd noson bingo arall yn cael ei threnfu ar gyfer y gwanwyn gyda'r elw unwaith eto'n cael ei rannu rhwng y Cylch ac Apel Parti Pinc y Llew Gwyn.

Daeth Siôn Corn i ymweld a'r plant yn ystod y parti ar fore dydd Iau yr 22ain o Ragfyr, diolch yn fawr iddo am gofio am blant y Cylch eleni eto.

Rydym yn ffarwelio â Glain ag Efa ac yn dymuno'n dda iddynt yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont. Byddwn yn croesawu Elen a Jack i'r Cylch.

Os ydych am gofrestru plentyn yn y Cylch galwch draw i'r Tŷ Sbrî neu cysylltwch ag Ysgol Tal-y-bont neu Ysgol Llangynfelyn. Rydym yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed o ddalgylch y ddwy Ysgol. Mae'r Cylch ar agor rhwng 9-12 ar foreau Llun-Iau ac ar brynhawn dydd Mercher o 12.30-3.30.

Mae'r Cylch Ti a Fi yn cwrdd ar brynhawn dydd Gwener rhwng 2-3.30 yn y Tŷ Sbrî.

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r Cylch yn ystod y flwyddyn.

Cogyddes ifanc

Llongyfarchiadau i Florrie Lithgow, Hafod Elerch, Bont-goch, a dysgybl yn Ysgol Gynradd Penrhyn-coch, ar ei llwyddiant yn Ffair Aeaf, Llanelwedd. Dyfarnwyd iddi y drydydd wobwr am lunio cracyr Nadolig bwytadwy. Yn y llun gwelir Florrie gyda'i thystysgrif a'r cynnyrch llwyddiannus.



Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr



Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr Talybont yng Nghapel Bethel ar nos Sul 18fed o Ragfyr. Roedd y capel yn llawn a chafwyd cyfres o eitemau gan fudiadau'r ardal - enghraifft ardderchog o bawb yn dod at ei gilydd ac yn tynnu gyda'i gilydd i greu noson gofiadwy. Ar derfyn y gwasanaeth cafwyd araith fer gan Rhian Jones (Eurfan gynt) ar waith Shelter yng Nghymru. Shelter Cymru oedd elusen fabwysiedig y Gangen am eleni ac yn y llun mae Enid Gruffudd, Cadeirydd, a Swyddogion y Gangen yn cyflwyno sicac am £315 i Rhian sef y swm a gasglwyd yn y gwasanaeth. A hithau wedi ei geni a'i magu yn Nhalybont roedd yn braf iawn cael croesawu Rhian yn ôl ac yn arbennig felly gan fod y noson yn glo ar ei gwaith i Shelter Cymru cyn iddi gychwyn ar ei swydd newydd i Gymdeithas Cymru Llundain.

Gwasanaeth Nadolig Ysgol Tal-y-bont



Yn dilyn llwyddiant ysgubol gwasanaeth Nadolig plant Ysgol Sul Capel Bethel yn 2010, cafwyd noson arall i'w chofio ar noswyl Nadolig 2011. Trodd tyrfa dda allan er gwaethaf y gwynt a'r glaw a hyfryd oedd gweld y plant yn eu gwisgoedd ac yn cyfleu stori'r geni mor effeithiol. Mae'n siwr i bawb fwynhau'r gwasanaeth, a pha well ffordd o gychwyn dathliadau'r Nadolig nag yn nghwmni plant talentog y pentref! Llongyfarchiadau mawr i bawb fu ynghlwm â'r gwasanaeth.

Y Lolfa
Y Lolfa Cyf. Talybont Ceredigion SY24 5HE

Swydd allweddol
yng ngwasg fywiocaf Cymru

**Rheolwr/aig
Swyddfa**

yn eisiau ar unwaith. Manylion
llawn gan Garmon Gruffudd
ar garmon@yolfaf.com neu
ffoniwch 01970 832 304.

www.yolfaf.com

Eglwys St Pedr, Elerch

Cafwyd gwasanaethau bendithiol dros gyfnod y Nadolig. Daeth 25 ynghyd ar gyfer y gwasanaeth carolau blynyddol ar 9 Rhagfyr, a chasglwyd £100 tuag at elusen Ambiwylans Awyr Cymru. Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Parchg Andy Herrick, Ficer Santes Ann, Penparacau. Daeth 20 yn blygeiniol i wasanaeth Cymun Bendigaid 8-00 bore Dydd Nadolig, ac roedd hi'n hyfryd gweld tri theulu ifanc yn bresennol. Roedd y gwasanaeth dan ofal Y Parchg Ganon Stuart Bell, Rheithor Aberystwyth.

CANOLFAN
M.O.T.

**HUW
LEWIS**

**M.O.T.
CENTRE**

Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batri
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

TEIARS

**HUW
LEWIS**

TYRES

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Sefydliad y Merched

Dathlwyd 95 mlynedd ers sefydlu Sefydliad y Merched yn Nhal-y-bont ar ddiwedd 2011. Cynhaliwyd tē bwffe yng ngwaelod y Neuadd gyda gwesteion o'r Borth, Taliesin, Eglwysfach a Chapel Bangor. Coginiwyd y gacen gan y Dr Myrtle Parker ac fe'i haddurnwyd gan Mrs Liz Roberts – fe'i thorrwyd gan Dr Parker a Mrs Elsie Thomas. Erbyn hyn, Elsie yw'r aelod gyda'r atgofion cynharaf o ddigwyddiadau'r Sefydliad gan fod ei mam yn un o'r aelodau cyntaf yn 1916.

Mae rhaglen ddeniadol ar gyfer 2012 yn cychwyn gyda chinio i ddathlu'r Flwyddyn Newydd yn y Llew Du ar Ionawr 05. Bydd y Cylch Darllen yn cwrdd ar ddydd Iau, 12 Ionawr, a bydd Mr Michael Deaville yn siarad am ei gasgliad o gamerau bocs ar Ionawr 19 – cynhelir y ddau gyfarfod yma yng ngwaelod y Neuadd am 14:30. Mae bob amser croeso i aelodau newydd – ffoniwch Sheila Talbot ar 832 574 neu Juliet Trudgill ar 832 205 os ydych am ymuno â ni.



DYMUNIADAU GORAU AM 2012

Manylion cyswllt:
Cyng. Ellen ap Gwynn
Garreg Wen, Tal-y-bont
SY24 5HJ
01970 832 551
07875 720 098
ellenag@ceredigion.gov.uk



CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, REHOBOTH

Cafwyd prynhawn diddorol yn llawn hwyl ar 13 Rhagfyr pan groesawyd Emyr Llywelyn i festri Capel Rehoboth, Taliesin. Bu'n sôn am Waldo Williams ac Idwal Jones yn bennaf, gan adrodd nifer o storïau doniol amdanynt. Talwyd y diolchiadau gan John Leeding, un o'r gwŷr dewr a ymunodd â'r chwiorydd am y prynhawn. Ar y diwedd, mwynhawyd paned o de gyda mins peis a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Jenkins, Margaret Jones a Tegwen Jones.

CANU CAROLAU

Nos Sul, Rhagfyr 18fed, mentrodd côr o garolwyr o gwmpas pentref Tal-y-bont. Ond, oherwydd y glaw trwm bu raid rhoi'r gorau i'r canu. Er ail-drefnu i ganu ar y Nos Fawrth, fe'n trechwyd eto gan y tywydd garw. Diolch i Gwydion, Steffan, Lefi, Lois ac Elan am droi allan i ganu gyda ni, a diolch i chi am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at Menter Lluest, Aberystwyth.

YSGOL SUL BETHEL



Addasiad Eleri Huws o stori'r geni a gyflwynwyd gan aelodau'r ysgol sul, noswyl nadolig.

Wrth i'r llefarwyr adrodd yr hanes daeth y stori'n fyw o flaen ein llygaid wrth i'r 'actorion' wneud eu rhannau'n hollol ddiffuant.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd unawdau gwefreiddiol gan Sam Ebenezer, Maes y Felin a Ben Watkins, Cyneiniog. Dyma'r tro cyntaf i Ben, sydd yn y Coleg Cerdd yn Llundain, gael y cyfle i ganu'n gyhoeddus yn Nhal-y-bont.

Diolch i Lois, Esther, Medi, Betsan, Catrin, Sion, Heledd, Bedwyr, Glain, Billy, Dylan, Ynyr, Tomos, Miriam, Eli, Becca, Heddwyn, Dyfri, Efa a Gethin am ddod a gwir ystyr y nadolig i ni.

Mae croeso i unrhyw un ddod i'r Ysgol Sul sy'n cyfarfod bob bore Sul rhwng 11.15 a 12.15 yng nghapel Bethel.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Blaenddôl, Tre'r-ddôl

Machynlleth, Powys

SY20 8PL

erbyn **dydd Gwener, 10 Chwefror 2012** fan bellaf



Yn Ffair Aeaf Machynlleth ym mis Rhagfyr, enillodd Rowland a Iolo Davies, Griffiths a Davies, Dolclettwr, Tre'r ddol y Brif Bencampwriaeth yn adran carcass yr ŵyn. Par o ŵyn menyw *Beltex* pur oedd yn fuddugol. Fe'u gwobrwywyd â Chwpan y Maer gan William Lloyd Williams. (Diolch i Alan Williams am y llun)



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk

Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Gwefan Gymraeg i Fythynnod

Gwyliau Gorau Cymru

130+ o fythynnod 4* a 5* ar hyd a lled Cymru



Gallwch chwilio ac archebu eich gwyliau ar
www.ygorauogymru.co.uk

neu gysylltu â thîm cyfeillgar Y Gorau o Gymru ar 01650 511 101

GYRFA CHWIST Y SIOE

Ar nos Fercher 21 Rhagfyr cynhaliwyd ein gyrfa chwist arferol. Bu'n chwist llwyddiannus o ddau ddeg tri a hanner fyrddau gyda Glyn Davies yr MC yn cadw trefn. Daeth cyfle am banded wedi ei baratoi gan y gwagedd ar hanner y noson a'r toriad yn gyfle i gael sgwrs a phrynu tocyn raffl gan Marion ac Ann. Ail ddechreuwyd y chwarae a buddugwyr y noson oedd:

Sgôr Uchaf – Gwydd – Aeron Edwards (184)/ Twrci M Rees, Llanfair Caereinion, Iwan Morgan/Cyw Iâr Jayne Jones, Elin Huxtable/Cyw Iâr Barbara Jenkins, Elfed Thomas/ Potel o Sieri Steffan Nutting, Gareth Owen/ Pwdin Dolig Meriel Ralphs, Tom Allday/ Bwrw Allan Hwyaen Gaynor Breese/ Enid, Ganllwyd/ *Minature Isaf* Anne James, Marion Evans/Dyn-dynes yn eistedd hiraf Vera Lewis, Huw Jones/Plentyn 16 oed neu iau Dewi Davies, Richard John Jenkins.

Braf oedd gweld ein llywyddion yn bresennol ac fe fu Peter Manley yn brysur yn tynnu gwobrau'r ddwy raffl. Y prif enillwyr oedd:

£60 – Menna Morgan 4 Dol Pistyll £40 Iola Jones, Pontrhydfendigaid £30 Trystan £20 M Jenkins £20 Harri Mason, Ffwrnais £10 Fagwyr £10 Arwel Rees, Llanfair Caereion £10 Copeland, Trefin, Bontgoch £5 Annie May James, Penbanc £5 Eleri Roberts, Dolgellau

Enillwyd gwobrau'r raffl fach gan unigolion ar y noson, yn ei plith sawl person lleol. Cyn troi am adref diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad a'i gefnogaeth i lwyddiant y Chwist.

Gwefan Gymraeg i Asiantaeth Gwyliau yng Nghymru

Mae lansiad gwefan Gymraeg asiantaeth gwyliau ar-lein, gan gwmni ifanc Llion Pughe a Gareth Mahoney, yn ddatblygiad busnes arwyddocaol.

Bydd y wefan Gymraeg, 'Y Gorau o Gymru' (www.ygorauogymru.co.uk), yn galluogi cwsmeriaid i chwilio ac archebu gwyliau ym mhob cornel o Gymru trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf.

Hwn yw'r busnes gwyliau ar-lein cyntaf o'i fath yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth a gwefan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Y Gorau o Gymru yn cynnig llety moethus pedwar a phum seren ar hyd a lled Cymru, a nawr fe fydd yn lleu ei apêl trwy ddarparu gwefan Gymraeg, yn ogystal ag un Saesneg ar gyfer archebion ac ymholiadau.

Meddai Llion sy'n rhedeg asiantaeth Y Gorau o Gymru o Gemaes, ger Machynlleth: "Mae'n holl bwysig i ni fel cwmni ein bod yn ymgorffori'r iaith Gymraeg yn ein busnes. Ychydig iawn o ddarpariaeth sydd ar gael ym myd twristiaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg."

Ychwanegodd Gareth, sydd hefyd yn rhedeg y cwmni o'r swyddfa yng Nghaerdydd: "Mae 22% o'n archebion yn dod gan bobl sydd yn byw yng Nghymru ac mae 1 o bob 5 o drigolion Cymru'n siarad Cymraeg. Felly mae 'na fwlch yn y farchnad ac 'rydyn ni'n hyderus y gallwn ei lenwi."

Fel canlyniad i ennill cystadleuaeth entrepreneuriaeth *Gorsedd y Dreigiau* yn Eisteddfod Genedlaethol 2010 yr oedd y ddau bartner busnes yn medru cyflawni eu nod o sefydlu'r unig wefan Gymraeg gan asiantaeth sy'n gosod bythynnod gwyliau yn genedlaethol yng Nghymru. Maent hefyd wedi ymestyn gwasanaeth y wefan, fel ei bod nawr yn bosib i ddysgwyr archebu gwersi Cymraeg fel rhan o'r profiad gwyliau unigryw.

Ac os nad ydy hynny'n ddigon, mae'r bythynnod gwyliau yn dod gyda chynhwysyn ychwanegol, arbennig iawn sy'n gwneud gwyliau yng Nghymru yn unigryw a chyflawn. Fe'i gelwir yn 'Groeso Cynnes Cymraeg', a gallwch chwilio am fythynnod â pherchnogion sy'n siarad Cymraeg trwy glicio ar 'perchnogion yn siarad Cymraeg' o dan 'Mwy o Opsiynau Chwilio'.

I ddathlu'r garreg filltir hon, hoffai Y Gorau o Gymru gynnig côd gostyngiad o 5% i unrhyw un sy'n dymuno aros yn eu bythynnod gwyliau yn 2012. Bydd y cynnig yn ddilys tan y 29ain o Chwefror 2012 a'r côd (i'w ddyfynnu wrth archebu dros y ffôn neu ar-lein) yw 'Gwyliau2012'. Gellir defnyddio hwn ar gyfer unrhyw ddyddiadau yn ystod 2012.

Am fwy o wybodaeth ynghylch bythynnod gwyliau Y Gorau o Gymru ffoniwch 01650 511 101 neu e-bostiwch info@bestofwales.co.uk

ENNILLYDD RAFFL NADOLIG



Cyflwynodd Elfyn Jones o siop Spar Talybont, hamper Nadolig raffl *The Raving Stompers* – a gododd dros £700 tuag at Gronfa Canser Y Fron Ysbyty Bronglais, i ddeilydd y tocin buddugol, Keith Pritchard o Dal-y-bont.

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:
01970 612331

www.nfmutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (inc. merged). Registered in England. Registered Office: Taddington Road, Stamford, Leicestershire LE9 7BE. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

Gofal Traed Aber

Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

Triniaeth yn y cartref ar gael

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**
4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig Merched y Wawr yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont ar nos Sul, 18 Rhagfyr. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o gymdeithasau a phlant yr ardal, a chafwyd gwasanaeth hyfryd i'n paratoui at y Nadolig. Yn ystod y noson gwnaethpwyd casgliad ar gyfer yr elusen Shelter Cymru, a chafwyd adroddiad gan Rhian Jones am waith gwerthfawr yr elusen yng Nghymru. Trosglwyddwyd y swm o £315 iddi. Traddodwyd y fendith gan y Parchedig Richard Lewis.

Sylwer fod y cyfarfod nesaf ar 16 Ionawr yng nghwmni Dr Hedd Piper, Clinig Corff Ystwyth, yn cychwyn am 7 o'r gloch.

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Bethesda Tynant

Trist iawn oedd clywed yn ddiweddar am farwolaeth Mrs Mair Williams, Bryngarth, Treforys, Abertawe, gynt o Glanaber, Tynant. Mair oedd yr hynaf o chwech o blant y Parch David Stephen Davies a Mrs Davies a fu'n weinidog ar Fethesda am flynyddoedd lawer. Enwau'r chwech oedd, Mair, Sallie, Idris, Margaret, Letitia a Stephen. Roedd capel Bethesda yn agos iawn at galonnau'r plant a bob haf byddent yn dod i Aberystwyth am ychydig o wyliau. Yn ystod eu hymwelid byddent yn mynd i fynwent Talybont ac yna lan i'r cwm ac yn galw yn y capel bach. Ar hyd y blynyddoedd mae Mair, Sallie a gweddw Stephen wedi cyfrannu'n hael i gadw'r capel ar agor. Cydymdeimlwn fel aelodau a ffrindiau Bethesda a'r teulu yn eu colled gan feddwl yn arbennig am Sallie yr unig un o'r plant sydd bellach ar ôl.

Taith feics Clwb Ieuenctid



Taith feics Clwb Ieuenctid "Os Mets" wedi codi £201 at ward Angharad, Ysbyty Bronglais. Ch/Dd: Geraint Howard, Sion Nelves, Yvonne Morris-Lewis Rheolwr Ward, Jayne Bond – Nyrs Meithrinfa Ward Angharad, Arweinydd – Efan Williams, a Ffion Evans.

CALENNIG

Wrth deimlo'n drist am na ddaeth neb at y drws i ganu am galennig eleni eto da cofio am yr hwyl a gaem wrth grwydro i ganu a chrynhoi'r ceiniogau ar y Calan slawer dydd. Codi'n gynt nag arfer a gosod y cwyd yn a luniodd mam o gwmpas y gwddw ac yng nghwmni'n ffrindiau canu yn Stryd Isa (Terrace Row) ac o gwmpas Taliesin cyn mynd ar draws ffordd y figyn i'r Nuodd, y Gelli a Phlas y Gwynfryn lle byddem yn cael ceiniog newydd sbon a'r flwyddyn newydd arni. Canu wrth Dymawr Llan, Tan-llan a Rock House cyn troi i mewn i dreflan ddiddorol y Goetre neu Goetre Fach fel sydd yn y cyfrifiadau a rhai o gofnodion yr Eglwys.

Rwy'n cofio am un profiad go arbennig pan oeddwn tua deg oed ac yng nghwmni nifer o'm cyfoedion o flaen bwthyn y cymeriad lliwgar a phoblogaidd Morgan Isaac, a grwydrai'r pentrefi o'r Borth i Aberystwyth a Machynlleth gyda'i geffyl a'i gert oedd yn llawn o gynnyrch ardderchog ei ardd fawr yn y Goetre. Roedd yr ardd yn codi cynnyrch go arbennig a hynny am fod ynddi ddigonedd o fawn y figyn yn gymysg â'r pridd. Ar ôl inni ganu daeth Morgan i'r drws, canmol y canu a gofyn inni ganu'r eilwaith – 'Jawl' medde John Mac dan ei wynt (John Morgan Isaac Macdonald – a Morgan yn frawd i Ellen ei fam-gu) 'gawn i lot arian bois'. Ond er gwaetha'r encôr hwyliog i'r tŷ yr aeth Morgan a chau'r drws heb estyn yr un geiniog inni. 'Wel yr hen ddiawl' medde John Mac cyn gweiddi'n uchel, Blwyddyn Newydd Ddrwg a llond y tŷ o fwg! Wrth inni ei heglu oddiyno ymddangosodd Morgan a gwn yn ei ddwylo. Sôn am redeg wedyn!

Roedd canmol mawr ar blanhigion bresych Morgan Issac ac y mae fy nghyfaill y Parchedig M.J.Morris, Machynlleth, yn cyfeirio ato mewn ysgrif yn y cylchgrawn *Llafar Gwlad*, Awst 2010; "Deuai â'i fwndel planhigion i'r dref ar ddiwrnod marchnad, a chodi ei stondin

mor agos ag y medrai i ddrws y Red Lion. Caech ryw bump ar hugain o blanhigion am naw ceiniog, neu os arhosech dan y prynhawn caech yr un bwndel am chwe cheiniog neu lai na hynny. Byddai trwyth y Red Lion wedi gwneud ei waith erbyn hynny".

Yr un oedd y patrwm yn y Borth a'r ceffyl a'r drol wedi parcio o flaen y Grand Hotel. Ni fethodd ei geffylau a mynd ag ef yn ddiogel i'r Goetre o'i fynych deithiau. Pan oedd John fy nghefnder a minnau yn beicio o Daliesin a Thre'r-ddol i'r Borth i gario bagiau byddigions Birmingham ar y maes golff byddem yn cwrdd â Morgan ar ffordd y figyn ac yn cael ambell sgwrs ddiddorol gydag e. Mae'i gyfenw yn ein hatgoffa ei fod yn perthyn i hen deulu lluosog a gwasanaethgar ym mhlwyf Llangynfelyn. Dafydd oedd tad a thad-cu Morgan, Richard yn hen dad-cu ac yntau'n fab i Daniel (enw cyson mewn sawl cenhedlaeth) a aned tua 1750. Bu Morgan farw ar 27 Awst 1951 saith mis o flaen ei frawd Dafydd Evans Isaac (hen dad-cu Meinir sydd yno gyda Paul heddiw), Pen-y-graig arweinydd cadarn ymhlith Wesleaid Soar a syrfewr hirben ar ffyrdd gogledd Ceredigion. Ef oedd yn gyfrifol am gael y ffordd osgoi goncrid i Dre'r-ddol ym 1938 (un o'r rhai cyntaf o'i bath yng Nghymru) a dwn i ddim beth a ddywedai fod y cyngor sir wedi tario drosti'n ddiweddar a hynny heb fod angen.

Y tu draw i gartref Morgan Isaac gwelir tŷ cadarn o'r enw Llonio – ond pam Llonio? Bu James Jones a aned ym Mhenbompren ym 1860 yn ficer Eglwys Llonio Llandinam cyn ymddeol i'r Goetre a daeth a'r enw gydag ef i'w hen gynefin. A chyswllt diddorol yw fod y seintiau Cynfelyn a Llonio yn gyfoeswyr. Hen arfer ymhlith plant Taliesin a Thre'r-ddol oedd ein bod yn cael mynd i de parti Nadolig Rehoboth, Soar a'r Llan Fach (Ysgoldy Eglwys Llangynfelyn) ond newidiodd pethau un Nadolig pan welwyd Mrs Jones, Llonio yn gadael plant yr eglwys i mewn i'r Llan

Carolau

Ar Ddydd Sul 18 fed o Rhagfyr roedd rhai o blant ysgol Tal y bont a phobl o'r pentref wedi cwrdd a'i gilydd yng Nghapel Bethel er mwyn dathlu'r Nadolig. Canom ni garolau a chlywom ni hanes o'r Beibl. Roedd rhai o fechgyn yr ysgol a un merch wedi chwarae offerynnau. Roedd Nia Benham wedi canu'r ffliwt ac roedd Aled Jones a Jac Jones wedi canu'r corned a Bedwyr Siencyn a Tomos Jenkins yn canu'r trombôn a Gwydion James yn canu'r trwmped.
Gan Tia Johnston Jones
bl.4

RIO

Ar yr 20fed o Ragfyr aeth ysgol Tal-y-bont i wyllo ffilm yn y sinema o'r enw *Rio*, film am aderyn yn Brasil. A hithau yn ddiwedd tymor roedd bawb wedi blino'n lân ond roedd pawb wedi mwynhau. Diolch i'r gymdeithas rhieni am ein helpu gyda'r costau.
Gan Tyrone Joule-Evans

Panto Radio Cymru

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol Tal-y-bont yn mwynhau Panto Nadolig Radio Cymru yn ddiweddar. Roedd y sioe yn dda iawn iawn. Ar ddechrau'r recordiad canodd Caryl Parry Jones y gân '*Gwyl y baban*' ac oherwydd ein bod ni'n gwybod y geiriau gofynnodd Caryl i ni fynd i ganu gyda hi! Roedd hi'n hwyl i ganu gyda rhywun enwog o flaen cynulleidfa!
Gan Glain Llwyd Davies

YSGOL

Siop y Pethe Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120



Fach ond yn ein gyrru ni blant y ddau gapel oddiyno gan ddweud, '*Go away, Jesus Christ doesn't like chapel children, you are little devils*'. Er nad oeddem yn saint prin ein bod yn haeddu'r fath driniaeth anghristnogol. Diolch fod pethau'n well erbyn hyn. Bydd raid dod yn ôl at y ficer James Jones a'i gefndryd o Dymawr Mochno, ac eraill a aeth i'r offeiriadaeth o Eglwys Llangynfelyn y tro nesaf.
W.J.E.

Clwb Brecwast

Rydym yn chwilio am rywun i weithio yn ein Clwb Brecwast. Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd neu rydych yn gwybod am rywun a fyddai gyda diddordeb – cysylltwch â Mrs Rhian Nelves yn Ysgol Llangynfelyn (832458) neu Mr Hefin Jones yn Ysgol Talybont (832276).

YSGOL

Parti Nadolig

I orffen y tymor cafwyd parti Nadolig yn yr ysgol. Diolchwn i'r staff am baratoi bwyd hyfryd i'r plant ac am drefnu'r gemau. Cafodd bob un o'r plant anrheg gan Siôn Corn gan ei fod wedi gadael llond sach o anrhegion yn yr ysgol ar ei ffordd i Begwn y Gogledd!

Trip i'r Sinema

Aeth y plant i Sinema'r *Commodore* i weld y ffilm 'Rio'. Mwynhaodd y plant y ffilm yn fawr iawn. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y trip.

Gwasanaeth Nadolig

(Gweler hefyd, gyda llun, ar tud. 4.)

Ar yr 8fed o Rhagfyr cynhaliodd Ysgol Tal-y-bont ei gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Bethel. Ar ôl y perfformiad aethom ni i gyd i'r Neuadd Goffa i gael bwyd – diolch i'r Gymdeithas Rhieni am drefnu hyn i ni. Fe wnaethom ni ymarfer yn galed i wneud y perfformiad perffaith. Gwnaethom ni fwynhau ac rydw i'n gobeithio fod pawb arall wedi mwynhau.

Gan Lecsi Taylor Bl. 6

Ar y 15 fed o Rhagfyr cafodd yr ysgol ginio Nadolig arbennig gan Mrs Jones. Roedd yna datws stwnsh, tatws rhost, selsig, saws afal, moron, twrci ac lot mwy. Roedd yna hefyd "crackers" ac ar ôl dweud gweddi dyma sŵn POP CRAC BANG o'r "crackers" ac yna cawsom hufen ia i bwdin. Diolch i'r rhieni ddaeth i helpu edrych ar ein ôl hefyd. Gobeithio bod pawb wedi cael hwyl achos roeddwn i wedi!

Gan Aled Jones

Cinio Nadolig



Parti'r Urdd

Ar y 14eg o Dachwedd roedd parti'r Urdd yn arbennig.

Chwaraeom ni gemau fel "musical chairs" a rhoi trwyn ar y carw.

Cawsom fwyd neis gan Miss Huw.

I orffen buom yn dawnsio – mwynheudd pawb parti yr Urdd.

Gan Dylan Wyn.



TAL-Y-BONT

Y Gerddorfa

Yng Nganolfan y Celfyddydau Aberystwyth ar y 19eg o Ragfyr, aeth plant hynaf Ysgol Gynradd Tal-y-bont i weld cerddorfa a chôr ieuencid Ceredigion. Roedd yna lawer o offerynnau gwahanol e.e trwmpeid, Corn Ffrengig, ffidil, euphonium, fliwt, trombon, drymiau a llawer mwy. Chwaraeom nhw rhanau gwahanol o King Kong a Harry Potter. Canodd y corau ganeuon bywiog. Gwisgodd Alan Philips lan fel gorilla, mwynheudd pawb hyn. Diolch i'r gymdeithas rhieni am ein helpu gyda'r costau.

Gan Penri ac Ashleigh

Ymweliad â Siôn Corn ym Mwlch Nant yr Arian



Aeth plant y Cyfnod Sylfaen i Fwlch Nant yr Arian i weld Siôn Corn gyda phlant bach Ysgol Craig yr Wylfa. Yn gyntaf roedd yn rhaid ffeindio a dilyn trywydd arbennig Nadoligaidd drwy'r goedwig. Ar ddiwedd y trywydd canodd y plant ganeuon Nadoligaidd a daeth Siôn Corn allan o'r coed

i weld y plant. Darllenodd Siôn Corn stori i'r plant yn ei gaban yn y coed cyn rhoi anrheg i bob un o'r plant. Cyn mynd adref, casglodd y plant ddail a gwrthrychau eraill naturiol yn y coed, cyn mynd ati i wneud coron Nadolig i fynd nol i'r ysgol gyda hwy.

LLANGYNFELYN

Gwasanaeth Nadolig

Dathlwyd y Nadolig eleni gyda Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Rehoboth, Taliesin. Adroddodd y plant stori'r geni gan gynnwys eitemau offerynnol a chaneuon i ddweud y stori. Braf iawn oedd gweld y capel yn llawn o ffrindiau a theuluoedd yn cefnogi'r ysgol. Diolchwn yn fawr iawn i Mrs Eiriona Metcalfe am gyfeilio ar yr organ ac am garedigrwydd swyddogion Capel Rehoboth. Diolchwn hefyd i'r plant am weithio mor galed ac am eu perfformiadau graenus. Ar ôl y gwasanaeth, aeth pawb yn nol i'r ysgol am banded mins peis yng ngofal y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Diolchwn i aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r lluniaeth a'r raffl. Diddanwyd pawb gan Ffion Hicks ar y ffidil.



Cinio Nadolig

Cafwyd gwledd eto eleni wedi'i goginio gan ein cogyddes Miss Janet Lea. Mwynhaodd bawb y cinio a'r pwdin hyfryd. Diolchwn i Mrs Linda Hicks, ein cyn-gogyddes, am eu rhodd hael o graceri i'r plant a'r staff.



Ben, Poppy, Gracie a Levi



Poppy, Bess a Katie

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Blwyddyn Ryngwladol y Goedwig Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Cymerodd disgyblion Blwyddyn 2 ran mewn Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Teitl y gystadleuaeth oedd 'Coetiroedd Rhyfeddol Cymru'. Tynnodd y plant ffotograffau o'r coed derw ar dir yr ysgol. Er na enillwyd prif wobwr am eu ffotograffau, derbyniodd y plant coed bach Nadolig arbennig am eu hymdrech gan y Comisiwn Coedwigaeth.



PAPUR SAIN CEREDIGION YN SYMUD I GARTREF NEWYDD

Mae Papur Sain Ceredigion i'r deillion a'r rhannol ddall yn symud cartref i swyddfeydd newydd Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth ac yn sefydlu eu hunain yno o ddechrau Ionawr 2012 ymlaen.

Dywedodd Mr D Bryn Lloyd, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Papur, bod y gwasanaeth newyddion wythnosol ar dâp wedi ei sefydlu tua diwedd chwedegau'r ganrif ddiwethaf gan y diweddar Mr Ronald Sturt, darlithydd yng Ngholeg y Llyfrgellwyr, gyda chefnogaeth aelodau y Ford Gron a charedigion blaengar eraill lleol, fel y papur sain cyntaf ym Mhrydain ar y pryd. Credir mai dyma'r trydydd lleoliad i'r gwasanaeth yn ei hanes yma yn Aberystwyth. Rhoddwyd cefnogaeth parod iawn ar hyd y cyfnod hwn gan hen gynghorau siroedd Aberteifi a Dyfed, a mawr iawn yw ein dyled unwaith eto i awdurdod a swyddogion Cyngor Sir Ceredigion am eu cymorth caredig yn ystod y cyfnod presennol o ail-leoli. Erbyn hyn mae'r dechnoleg wedi symud ymlaen ac mae'r gwasanaeth wedi ymdopi â'r newid o recordio ar dâp i gyfrwng 'co bach' (*USB memory sticks*). Gwiredwyd hyn oll dan arweiniad diwyd cyn-gadeirydd y Papur Sain, Dr William Williams, yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf, ac mae'r nifer sydd yn manteisio ar y gwasanaeth wedi croesawu'r cyfrwng newydd yn barod iawn.

Mae nifer o ddeillion a'r rhannol ddall yn byw yng Ngheredigion ac mae cyfle, i'r rhai nad ydynt hyd yma yn derbyn y gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu yn y ddwy iaith, i'n hysbysu fel y medrant dderbyn y newyddion yn wythnosol ac yn ddidrafferth, dim ond iddynt gysylltu ag Ysgrifennydd y Papur Sain, Mrs Mary Jones, Uned Papur Sain Ceredigion, Swyddfa'r Sir, Rhodfa Padarn, Aberystwyth SY23 3UE.

Dywedodd Bryn Lloyd hefyd y byddai'r pwyllgor rheoli yn falch o glywed gan aelodau o'r cyhoedd yn lleol allai wirfoddoli i ymuno â'r criw sy'n cynhyrchu'r 'tapiau' yn wythnosol, yn naill ai paratoi deunydd i'w ddarllen, darllenwyr, recordwyr a chopiwyd. Eto gellir cysylltu ag Ysgrifennydd y Papur, Mrs Mary Jones yn y cyfeiriad a nodwyd eisoes.

GAREJ DAVMOR

**M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars**

Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

**Bistro
Gannets**



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

**James
Memorials**

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

David Charles Richards

Cydymdeimlwn a Cheryl Griffiths, Eryl Pen-lôn ar farwolaeth ei chefnider, sef David Charles Richards o Aberystwyth. Bachgen o Dal-y-bont oedd David. wedi ei fagu yn Mhenpompren House (Glanceulan heddiw) cyn i'r teulu symud i Darren Pen-lôn. Roedd yn fab i'r diweddar Connie a John Jones Richards (Joni'r Offis) a fu'n gweithio yn Lerry Mills am flynyddoedd maith ac yn frawd i'r diweddar Henry. Roedd ei wreiddiau'n ddwfn yn yr ardal a'i deulu wedi byw yma ers cenedlaethau. Roedd David yn hanu o hen deulu Dafisiaid Plas Penpompren ar ochr ei fam, yn wŷr i Mr a Mrs Pugh Davies ac yn or-wŷr i Mr Seymour Davies. Bu'n gweithio am flynyddoedd gyda'r Cambrian News. Cydymdeimlwn hefyd gydag Eurig Richards, Maesyderi - roedd David yn gefnder iddo yntau hefyd.

**MID WALES
STORAGE**

Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN	STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR	PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol. Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:
Gwilym Huws

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr,
Pengwern,
Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5BN

erbyn dydd Llun 9 Ionawr 2012

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn sic o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

- 1 Enw awdur y nofel *Pantglas* (7, 6)
- 7 a 28 ar draws.
Argraffiad newydd o gerddi Waldo a gyhoeddwyd yn 2010 (4, 4)
- 9 a 29
Byd o Beryglon: 1. Perygl ar _____, nofel gyffrous i ddarllenwyr 9–12 oed (4, 4)
- 10 *Bachgen yn _____*, nofel gan Morris Gleitzman (1, 3)
- 12 Enw cyntaf awdur *Hen Blant Bach*, Nofel y Mis Ebrill 2011 (4)
- 13 *Siôn Bach _____*, cymeriad yng Nghyfres y Dyn Papur Newydd (5)
- 14 Enw canol awdur y gyfrol o gerddi *Amheus o Angylion* (5)
- 16 *Merch _____*, nofel gan Sonia Edwards (4)
- 20 Hanes y cymeriad lliwgar Russell Jones, _____ *fy Myd* (5)
- 21 Gweler 22 i lawr
- 24 *Y Dewin _____*, stori i blant gan Margaret Davies yn y gyfres Darllen Stori (4)
- 26 Enw cyntaf awdur *O Dro i Dro*, casgliad o bedair dawn (5)
- 27 Enw cyntaf cantores enwog, gwrthrych cyfrol gan Ildid Anne Jones (5)
- 28 Gweler 7 ar draws
- 29 Gweler 9 ar draws
- 30 _____ *Deuddeg*, cyfrol o hwiangerddi (4)
- 32 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Blwyddyn Fan Hyn a Fan Draw* (4)
- 34 Bardd Plant Cymru 2010–2011 (4, 3, 6)

I LAWR

- 1 Enw llawn Appy, y rheolwr pêl-droed a gyhoeddodd ei hunangofiant yn 2011 (7, 8)
- 2 *Dolenni _____*, casgliad o ryddiaith gan Owen Martell (3)
- 3 Cyfrol gan Alan Llwyd – *Sut i greu _____* (5)
- 4 Enw cyntaf arlunydd ac awdur y gyfrol *Mynyddoedd Eryri* (3)
- 5 *laith y _____* – *Dyfyniadau Ynglŷn â'r laith Gymraeg* gan Gwilym Lloyd Edwards (6)
- 6 Hunangofiant Sharon Morgan (5, 3, 7)
- 8 Cyfenw golygydd y gyfrol *Sachaid o Limrigau* (5)
- 11 Cyfrol liwgar o gerddi doniol i blant gan 34 ar draws (3)
- 12 Enw cyntaf un o brif gymeriadau'r gyfrol *Dyddiadur Dripsyn* (4)
- 15 Enw cyntaf awdur y gyfrol ddoniol *Pwy Faga Ddefed?* (4)
- 17 *Theleri _____*, hunangofiant 34 ar draws (3)
- 18 *Rhag Pob _____* – Cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)
- 19 Enw cyntaf awdur *Bydoedd – Cofiant Cyfnod*, Llyfr y Flwyddyn 2011 (3)
- 22 a 21 ar draws
Hunangofiant cantores dalentog o Lanerfyl – rhif 34 yng Nghyfres y Cewri (4, 5)
- 23 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Neb Ond Ni* – enillydd y Fedal Ryddiaith 2011 (5)
- 25 Nofel ar gyfer yr arddegau ac oedolion yng Nghyfres y Dderwen gan Lleucu Roberts (6)
- 26 *Rhy _____* – Storiâu Byrion gan Bobi Jones (3)

Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

- 28 Pedwaredd nofel Manon Steffan Ros (5)
- 31 Cyfaill Jos yn *Rebels Ceir Rasio* a rhai o gyfrolau eraill cyfres Bechgyn am Byth (3)
- 33 *Traed _____*, nofel gan Mari Emlyn (3).

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein



Cyngor Llyfrau Cymru
Welsh Books Council

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2012. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

DIWRNOD Y
LLYFR
1.3.2012

Chwaraeon

EDRYCH YN ÔL ...AC EDRYCH YMLAEN

Enwyd mis Ionawr ar ôl y duw Rhufeinig Janus a oedd iddo ddau wyneb, y naill yn edrych yn ôl a'r llall yn edrych ymlaen. Mae'n briodol y mis hwn felly i ni edrych yn ôl dros y byd chwaraeon yn 2011 ac ymlaen at 2012, a dyna'r cwestiwn a holwyd i nifer o ddarlllenwyr Tal-y-bont. Dyma'r ymatebion:

Gerwyn Jones

2011

Perfformiadau tîm a chefnogwyr rygbi Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn Seland Newydd. Gwych oedd gweld y ddelwedd bositif o Gymru'n cael ei gyfleu ar ac oddi ar y cae rygbi. Yn anffodus dwi'n amheus os gawn gyfle gwell i fod yn bencampwyr byd.

Datblygiad y tîm pêl droed cenedlaethol gyda nifer o chwaraewyr ifanc cyffrous megis Bale, Ramsey a Hennessey yn dangos eu doniau. Anodd gwybod beth fydd effaith colli Gary Speed ond roedd yn anhygoel gweld yr effaith a gafodd ei farwolaeth ar y wlad yn gyffredinol. Mae hwn yn wir herio cred rheolwr chwedlonol Lerpwl, Bill Shankly, fod pêl droed yn llawer pwysicach na bywyd a marwolaeth



Llun o Gary Speed a dynnwyd gan ffotograffydd Papur Pawb yn yr Eisteddfod Genedlaethol

2012

Y gemau Olympaidd yn llwyddiant. Byddai'n wych gweld cystadleuwyr Cymreig sydd ar hyn o bryd bron yn anhysbys yn ennill mewn unrhyw un o'r campau ac felly'n dod i'r blaen fel arwyr ac esiampl ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Clwb pêl droed Tal-y-bont yn cael llwyddiant ar bob lefel. Mae'n werth gweld wynebau Anthony a'r bechgyn ar nos Sadwrn yn y Llew Gwyn ar ôl iddynt ennill – does dim angen gofyn y canlyniad dim ond y sgôr!

Ar lefel deuluol, rwy'n gobeithio bydd Rhian yn medru recordio amser da ym marathon Paris ar 1 Ebrill a fy mod innau yn cael gwell hwyl yn dal i fyny ac o bosib yn achlysurol o leiaf yn curo Eifion ar y beic!

Eilir Huws

2011

Gwyllo gemau Rygbi Cymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd ar y teledu a meddwl am y dyfodol disglair iawn sydd gennym ni gyda'r dalent ifanc. Hefyd roedd hi'n fraint cael mynd i weld Cymru'n curo'r

Swistir 2-0, ac yna neidio 45 safle i fyny tabl detholion y byd ar ôl rhediad ardderchog!

2012

Yn bennaf rwyf yn edrych ymlaen at wyllo'r gemau Olympaidd, ac i weld recordiau byd yn cael eu torri, a hefyd dilyn hynt a helynt tîm pêl-droed Cymru i gyrraedd Cwpan y Byd. Heb anghofio chwarae pêl-droed fy hun i Dal-y-bont.

Richard Huws

2011

Ar ôl bod yn gefnogwr i'r *Swans* ers i mi ei gweld gyntaf yn 1958, mae nodi uchafbwynt 2011 yn ddewis rhwydd. Roedd bod yn Wembley ym mis Mai i'w gweld yn trechu Reading i ennill lle yn Uwch Gynghrair Lloegr yn brofiad bythgofiadwy.

Ar lefel bersonol roedd bod yn rhan o dîm llwyddiannus clwb bowlio Queens Road yn adran gyntaf Ceredigion yn hynod bleserus.

2012

Hoffwn weld tîm pêl-droed Wrecsam yn ennill dyrchafiad, a Chaerfyrddin yn cadw ei lle yn Uwch Gynghrair Cymru. (Cefais fy magu o fewn 50 llath i Barc Waun Dew).

Edrychaf ymlaen at y tymor bowlio, a byddai'n hyfryd gweld ail-godi tîm enwog Tal-y-bont, sef y CEULAN 4 a fu'n cystadlu yn nghyngair Queen's Road yn yr 1980au. Roedd Dai Roberts, y diweddar Aelwyn Thomas, Bert Jones gydag Eric Roberts yn *skip* o fri yn bedwarawd cystadleuol iawn.

Bryn Smith

2011

Yn y byd pêl-droed fy uchafbwyntiau yn 2011 oedd bod y tîm genedlaethol yn gwella yn ystod 2011.

2012

Yn edrych ymlaen at gêm nesaf Cymru – sef y gêm yn erbyn Costa Rica yng Nghaerdydd i gofio am y diweddar Gary Speed – gobeithio bydd Stadiwm Dinas Caerdydd yn llawn.

Y Gair Olaf



Addurniadau Nadolig wedi eu rhoi gadw, y calennig wedi'i ddosbarthu ac felly mae'n amser edrych ymlaen at flwyddyn newydd. Beth sydd ar y gorwel? Un peth sy'n siwr o greu cynnwrf yw'r ffilm am Margaret Thatcher. Fyddai i ddim yn rhuthro i'r sinema i ail fyw'r cyfnod hyll yna ond efallai bod hi'n werth trio cofio beth oedd canlyniad ei theyrnasiad. Rwy'n cofio ddiwedd y 70au, dechrau'r 80au, fel cyfnod pan oedd pawb yn trafod, yn protestio, yn gorymdeithio, yn codi llais. Refferendwm '79, Comin Greenham, Streic y Glowyr, Ymgyrch Sianel Gymraeg, Rhyddid i Mandela. Pawb a'i farn. A wedyn ... wedyn ... wrth iddi danseilio hawliau pobol i streicio a phrotestio mi lwyddodd y fenyw yna i'n stopio ni rhag mynegi barn, ac i rhyw raddau, i fod yn ffurfio unrhyw farn o gwbwl. Daethon ni i gredu, ar y cyfan, nad oedd gwerth codi llais. Ond ynghanol diflastod 2011 a'r economi ar ei thin dechreuodd pobol godi llais eto a gorymdeithio a phrotestio. Cynhaliwyd streiciau lle gwelwyd pobol yn martshio drwy Aberystwyth a rheiny erioed wedi streicio yn eu byw. A dwi'n falch iawn. Dwi ddim yn falch bod angen streicio ond dwi'n falch bod pobol wedi gwneud. Eu bod nhw wedi penderfynnu codi llais.

Yn 2012 bydd mwy o doriadau a byddwn ni yng Ngheredigion siwr o weld mwy fyth o wasgfa. Felly beth am inni addunedu i ffurfio barn ac i'w leisio'n uchel. Mae codi llais yn newid pethe – nid dros nos efallai, ond dyfal donc...

Catrin M.S. Davies

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com